# Sut i gysylltu â chyflenwad trydan

## Defnyddio Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu (DNO)

Mae DNO yn endid a drwyddedir i ddosbarthu trydan drwy geblau ac mae ganddo ddyletswydd i ddarparu cysylltiadau i safleoedd.

| | |
|---|---|
| Central Networks plc | Customer Application Team, Central Networks, 3rd Floor, Toll End Road, Tipton, DY4 0HH<br>Gwefan: http://www.eon-uk.com/distribution/connections.aspx<br>Ff. 0845 072 7270 |
| EDF Energy Networks | Atlantic House, Henson Road, Three Bridges, Crawley, West Sussex, RH10 1QQ<br>Gwefan: http://www.edfenergy.com/products-services/networks/connection-services/index.shtml<br>Ff. 0845 234 0040 |
| CE Electric UK | CE Electric UK, Network Connections, Cargo Fleet Lane, Middlesborough, TS3 8DG<br>Gwefan: http://ceelectricuk.com/page/connections2.cfm<br>Ff. 08450 702 703 |
| Scottish Hydro Electric Power Distribution plc | Inveralmond House, 200 Dunkeld, Perth, PH1 3AQ<br>Gwefan: http://www.hydro.co.uk/<br>Ff. 0800 048 3515 |
| Southern Electric Power Distribution Ltd | Westacott Way, Littlewick Green, Maidenhead, Berkshire, SL6 3QB<br>Gwefan: http://www.southern-electric.co.uk/<br>Ff. 0800 048 3516 |
| SP Distribution | SP Energy Networks, Customer Connections, 55 Fullerton Drive, Cambuslang, Glasgow, G32 8FA<br>Gwefan: http:// www.sppowersystems.co.uk/NewConnections/<br>Ff. 0141 614 9997 |
| SP Manweb plc | SP Energy Networks, Customer Connections, PO Box 290 Lister Dr, Liverpool, L13 7HJ<br>Gwefan: http://www.sppowersystems.co.uk/NewConnections/<br>Ff. 0151 221 2110 |

| | |
|---|---|
| Electricity North West Ltd | United Utilities Electricity Services, Limited, Oakland House, Talbot Road, Manchester, M16 0HQ<br><br>Gwefan: http://www.unitedutilities.com/electricityconnections.htm<br><br>Ff. 0845 050 0108 |
| Western Power Distribution ccc Cymru | Cymorth Busnes, Western Power Distribution, Ffordd y Ffenics, Parc Anturiaeth Abertawe, Llansamlet, Abertawe, SA7 9HW<br><br>Gwefan: http://www.westernpowercymru.co.uk/New-Connections.aspx<br><br>Ff. 0845 601 3341 |
| Western Power Distribution plc South West | New Connections Enquiries, Bodmin Records Team, Western Power Distribution, Lostwithiel Road, Bodmin, Cornwall, PL31 1DE<br><br>Gwefan: http://www.westernpower.co.uk/New-Connections.aspx<br><br>Ff. 0845 601 2989 |

Rhaid i'r DNO ddarparu a gosod asedau mae eu hangen ar gyfer cysylltu eich safle â'i rwydwaith dosbarthu. Mae gan y DNO hawl i godi tâl am ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Amlinellir y dulliau a'r egwyddorion y mae DNO yn dibynnu arnynt wrth godi tâl am gysylltu yn ei Amod Trwydded 14 datganiad Codi Tâl am Gysylltu sydd i'w weld ar wefan pob DNO. Mae'r datganiad codi tâl hwn hefyd yn amlinellu polisi'r DNO ar daliadau atgyfnerthu a'r meini prawf ar gyfer ad-daliadau posibl i'r cwsmer drwy'r Rheoliadau Codi Tâl am Gysylltu.

## Gwybodaeth gyffredinol

- I gael cyswllt gan DNO mae angen i chi hysbysu'r DNO o fewn amser rhesymol am fanylion y safle sydd i'w gysylltu, yr adeg y mae angen cael y cyswllt a hyd eithaf eich gwybodaeth yr uchafswm pŵer mae ei angen o'r cyswllt

- Dylai DNO roi dyfynbris i chi am gysylltu â'i system ddosbarthu, ond fel arfer ni fydd yn gosod mesurydd nes y caiff gyfarwyddyd i wneud hynny gan eich cyflenwr trydan o ddewis. Wrth roi dyfynbris dylai'r DNO roi gwybod i'r cwsmer bod angen iddo enwebu cyflenwr cyn y gellir gosod y cysylltiad a hynny cyn derbyn y dyfynbris os yw'n bosibl. Fe'ch cynghorir i benodi cyflenwr trydan a llofnodi contract gyda'r cyflenwr hwnnw o leiaf 28 diwrnod cyn y dyddiad rydych am i drydan lifo.

- Wrth dderbyn cyswllt gan y DNO bydd yn ofynnol i chi neu'ch cyflenwr lunio cytundeb cyswllt. Mae cytundeb cyswllt yn amlinellu'r hawliau a'r rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â'r cyswllt.

- Ar ôl cysylltu eich safle i'r rhwydwaith dosbarthu trydan, mae'n ddyletswydd ar y DNO i gynnal y cyswllt am gyn hired ag y mae ei angen ac i atgyweirio a newid unrhyw linellau neu offer trydan pan fo angen heblaw pan fyddwch chi neu'ch asiant yn gyfrifol am unrhyw ddifrod i'r offer

- Os ydych yn anfodlon ar unrhyw agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir dylech, i ddechrau, gysylltu â'r cwmni y mae gennych gontract ag ef ar gyfer y cyswllt a chwyno yn unol â'u gweithdrefnau sydd wedi'u cyhoeddi. Os ar ôl 8 wythnos (neu'n gynt os ydych chi a'r DNO yn cytuno na ellir gwneud unrhyw beth) rydych yn anfodlon o hyd, gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon Ynni[1] (www.energy-ombudsman.org.uk) sy'n darparu cynllun unioni er mwyn delio ag anghydfodau heb eu datrys. Mewn rhai achosion gall fod yn briodol i'r Ombwdsmon gyfeirio anghydfodau i Ofgem er mwyn penderfynu arnynt yn ffurfiol.

**Defnyddio Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu Annibynnol (IDNO)**

Mae IDNOs yn endidau trwyddedig sy'n berchen ar rwydweithiau dosbarthu ynni ac yn eu gweithredu, estyniadau rhwydwaith a gysylltir i'r rhwydwaith dosbarthu presennol yn bennaf, e.e. er mwyn gwasanaethu datblygiadau tai newydd. Ar hyn o bryd mae OFGEM wedi cyflwyno chwe thrwydded dosbarthu i IDNOs:

| | |
|---|---|
| Independent Power Networks Limited | Tŷ Ocean Park, East Tyndall Street, Caerdydd, CF24 5GT<br><br>Gwefan: http://www.independentpowernetworks.co.uk/index.php<br><br>Ff. 0845 055 6199 |
| Energetics Electricity Ltd | International House, Stanley Boulevard, Hamilton International Technology Park, Glasgow, G72 0BN<br><br>Gwefan: http://www.energetics-uk.com/electricity/ |
| The Electricity Network Company Ltd | Energy House, Woolpit Business Park, Woolpit, Bury St Edmunds, Suffolk, IP30 9UP. |
| ESP Electricity Limited | Hazeldean, Station Road, Leatherhead, Surrey, KT22 7AA<br><br>Gwefan: http://www.espelectricity.com/index/htm<br><br>Ff. 01372 227560 |
| ECG (Distibution) Ltd | Sterling House, Langston Road, Loughton, Essex, IG10 3FA http://ecgdistribution.com/ |
| EDF Energy (IDNO) Ltd | 40 Grosvenor Place, Victoria, London, SW1X 7EN<br><br>http://www.edfenergy.com/products-services/networks/index.shtml |

Mae ceisiadau gan gwmnïau eraill yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

[1] O 1 Hydref 2008, daeth trefniadau newydd ar gyfer cynrychioli defnyddwyr i rym yn dilyn pasio Deddf CEAR 2007. Bydd yr Ombwdsmon Ynni yn setlo anghydfodau rhwng cwmnïau ynni a defnyddwyr domestig a defnyddwyr busnesau micro. Diffinnir busnesau micro fel unigolyn a gyflenwir neu sydd am gael ei gyflenwi ar safle gyda defnydd blynyddol o: drydan nad yw'n fwy na 55,000 kWh; neu nwy nad yw'n fwy na 200,000 kWh; neu lai na 10 o gyflogeion a throsiant blynyddol nad yw'n fwy na €2m.

## Defnyddio Darparwr Gwasanaeth Cysylltu Trydan Achrededig.

Gallwch gyflogi cwmni peirianneg trydanol annibynnol sy’n gymwys i gyflawni’r gwaith cysylltiadau trydan. Er y gall rhai o’r cwmnïau hyn gyflawni cysylltiadau domestig, maent yn tueddu i arbenigo mewn cysylltiadau annomestig mawr ar hyn o bryd. Rhaid i waith gael ei gyflawni yn unol â’r safonau a’r gweithdrefnau a bennir gan y cwmni dosbarthu a fydd yn y pen draw yn mabwysiadu ac yn cynnal a chadw’r cyswllt. Yn ogystal â hyn, mae Amod Trwydded 14 DNO datganiad Codi Tâl am Gysylltu yn amlinellu pa faes gwaith y gall contractwr trydanol annibynnol cymeradwy addas ei gynnal, a elwir fel arfer yn waith sy’n agored i gystadleuaeth, fel arfer gelwir gwaith lle mai dim ond y DNO all ei gyflawni yn waith nad yw’n agored i gystadleuaeth.

Gallwch gael rhestr o gwmnïau trydanol annibynnol sy’n gallu cyflawni’r math hwn o waith o wefan Lloyds Register[2].

Mae’r cwmnïau DNO wedi cyflwyno cynllun cofrestru, a weithredir gan Lloyds Register, i gwmnïau sy’n cyflawni gwaith cysylltu annibynnol. Mae cwmnïau cofrestredig wedi dangos cymhwysedd mewn meysydd penodol o waith cysylltu ac maent yn destun archwiliadau ac arolygiadau parhaus gan Lloyds Register. I gael rhagor o wybodaeth am y cynllun hwn ewch i:

http://www.lr.org/Industries/Utilities/Standards/Schemes/

## Ceblau a gwifrau o’r Mesurydd i’ch Offer Trydanol

Ni fyddai ceblau a gwifrau o’ch mesurydd i’ch offer trydanol wedi’u cwmpasu gan eich cytundeb cysylltu gyda’r DNO a’r cyflenwr trydan. Byddai’n rhaid i drydanwr cymwys eu gosod i chi. Ni chaiff offer diogelu cwsmeriaid fel blwch ffiwsiau a switsys eu cwmpasu gan y cytundeb cysylltu ychwaith.

[2] http://www.lloydsregister.co.uk/ners.html